# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **26 Hydref 2023** |
| **Teitl:** | **Cynllun Peilot ar gyfer cyfarfodydd o bell yn unig** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **I'r Cyngor ystyried cytuno cynllun peilot ar gyfer cyfarfodydd o bell yn unig** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth**

**Cyflwyniad**
Mae Canllawiau Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru yn nodi bod yn rhaid i bob Awdurdod Lleol greu polisi, sy'n nodi pa gyfarfodydd y bydd darpariaeth gorfforol yn cael ei gwneud ar eu cyfer, ac a fydd yn cael eu cynnal yn gyfan gwbl o bell:

*15.54 Ynghyd â gofynion craidd y "trefniadau cyfarfod" – y trefniadau sydd wedi'u gorfodi'n gyfreithiol y mae'n rhaid i awdurdodau perthnasol eu gwneud ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad – gall fod polisi cyfarfodydd aml-leoliad ehangach, a fydd hefyd yn adlewyrchu'r egwyddorion cyffredinol a nodir o baragraff 15.32 ymlaen, tra'n nodi gweithdrefnau manylach i sicrhau bod cyfarfodydd aml-leoliad yn gweithio mewn modd effeithlon, effeithiol ac atebol…*

*15.58 Bydd union gynnwys polisi yn cael ei gytuno ar lefel leol. Mae profiad awdurdodau perthnasol yn y gorffennol, fodd bynnag, yn awgrymu y dylai gynnwys:*

- *Sut i benderfynu pa gyfarfodydd fydd yn cael darpariaeth wyneb yn wyneb, a pha rai fydd yn cael eu cynnal yn gyfan gwbl drwy ddull o bell (o baragraff 15.60;*

***15.59 Efallai y bydd rhai awdurdodau perthnasol yn penderfynu y bydd yr holl gyfarfodydd yn cael eu cynnal drwy ddull o bell yn ddiofyn. Efallai bydd awdurdodau perthnasol yn dymuno mabwysiadu gwahanol ddulliau gweithredu ar gyfer gwahanol gyrff ac ar gyfer gwahanol amgylchiadau.***

**Datblygu'r protocol drafft**
Cafodd papur trafod ei ystyried gan Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2023 a oedd yn sail i'r argymhellion a amlinellwyd yn y protocol atodedig. Cafodd hyn ei graffu ymhellach gan Aelod o'r Gweithgor Cyfansoddiad yn ystod ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2023.

Ystyriodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fanteision cynnal cyfarfodydd aml-leoliad, ac ystyriaethau ynghylch penderfynu pa bwyllgorau sy'n cael eu bodloni orau drwy arddull hybrid, ac sydd orau i'w cyfarfod o bell yn unig. Wrth wneud hynny, bu'r Pwyllgor yn ystyried y ffactorau canlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol feddwl am, a gweithredu arnynt, anghenion hirdymor yn y ffordd y caiff polisi ei ddatblygu a'i wneud
- Lleihau ôl-troed carbon
- Lleihau'r risg o ddigwyddiadau annisgwyl yn y dyfodol, fel tywydd eithafol, neu fethiant offer
- Gwneud defnydd o'r Gymraeg yn llawer haws
- Lleihau'r angen am deithio a chostau cysylltiedig a phwysau amser, yn enwedig pan fo awdurdodau perthnasol yn cwmpasu ardaloedd daearyddol mawr
- Ei gwneud hi'n haws i gyfranogwyr gymryd rhan os oes ganddynt gyfrifoldebau proffesiynol a gofal, a allai gael gwared ar rai rhwystrau rhag sefyll yn y swydd
- Gwell cefnogaeth i aelodau o gefndiroedd amrywiol, gan gynnwys cefnogaeth sy'n cydnabod y model cymdeithasol o anabledd. Yn yr un modd ag y mae rhwystrau'n cael eu dileu i gyfranogiad y cyhoedd, mae cyfarfodydd aml-leoliad wedi ei gwneud yn haws i ddarparwyr gofal, neu bobl anabl, neu bobl â nodweddion gwarchodedig eraill, ymgysylltu ar sail gyfartal. Mewn rhai achosion, mae cyfranogwyr wedi canfod ffurfioldeb cyfarfodydd corfforol yn annymunol, ac mae cyfarfodydd aml-leoliad wedi dileu'r ffactor hwn.
- Gwell ymddygiad, gan ei gwneud yn haws i'r Cadeirydd ddeall pwy sydd am wneud cyfraniad, er ei bod yn anoddach darllen iaith y corff.

Yn ogystal â hyn, mae cefnogi cyfarfodydd hybrid yn ddwys iawn o ran adnoddau, gan ei gwneud yn ofynnol i 2 Swyddog o'r Gwasanaethau Democrataidd fynychu pob cyfarfod.

Fe ddaru'r Pwyllgor hefyd yn ystyried data yn ymwneud â phresenoldeb blaenorol ym mhob cyfarfod; sicrhau opsiwn hybrid i bwyllgorau lle gall aelodau'r cyhoedd gymryd rhan; a chamau i'w cymryd i leihau'r risg mewn amgylchiadau fel tywydd eithafol.

Penderfynodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd argymell i'r Cyngor bod y Pwyllgor Gwasanaeth Democrataidd a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu cynnal o bell yn unig am gyfnod peilot o 18 mis am y rhesymau canlynol:

<u>Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd</u>

- Byddai hyn yn rhoi cipolwg uniongyrchol i'r pwyllgor hwn ar yr ymarfer peilot;
- Mae nifer yr aelodau sy'n mynychu'n bersonol o'i gymharu â o bell tua 50:50;
- Ni all aelodau'r cyhoedd gyfrannu at y pwyllgor hwn;

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- Ar hyn o bryd mae'r mwyafrif o Aelodau yn mynychu o bell (bron i dri chwarter);
- Ni all aelodau'r cyhoedd gyfrannu at y pwyllgor hwn;
- Mae aelodaeth o'r Pwyllgor yn cynnwys Aelodau Lleyg ac nid oes gofyn i Aelodau Lleyg fyw o fewn pellter teithio rhesymol i Siambr y Cyngor;
- Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn Aelod Lleyg, a chadeiriwyd yr holl Bwyllgorau a gynhaliwyd rhwng Mai 2021 a Mawrth 2022 o bell;
- Mae Archwilio Cymru yn mynychu cyfarfodydd o bell.

**Y camau nesaf**
Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor, bydd Cadeirydd pob Pwyllgor yn cael ei hysbysu o'r penderfyniad, ac yn dilyn y cyfnod peilot, cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i gynnwys adborth gan y ddau Bwyllgor i ystyried a yw'n dymuno ymestyn y ddarpariaeth o gyfarfodydd o bell i bwyllgorau eraill, neu ddychwelyd at gefnogi pob Pwyllgor mewn modd hybrid.

Bydd y Protocol ar gyfer Mynychu Cyfarfodydd Aml-leoliad Awdurdodau Lleol a Darllediadau Electronig o Gyfarfodydd, fel y'i cyhoeddir yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu penderfyniad y Cyngor, a'i adolygu ymhen 18 mis.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**
Na, mae hyn er mwyn adlewyrchu gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | AMH |
| **Cydweithio:** | AMH |
| **Cynnwys:** | AMH |
| **Atal:** | AMH |
| **Integreiddio:** | AMH |

**Argymhelliad / Argymhellion:**
**Fod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynllun peilot i gynnal y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o bell yn unig am gyfnod o 18 mis.**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**
**I lywio datblygiad ac adolygiad parhaus Polisi Cyfarfodydd Aml-Leoliad**

**Trosolwg a Chraffu:** Amh

**Fframwaith Polisi:** Amh

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:** Amh

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** Arbedion bach i'w gweud o gynnal cyfarfodydd o bell yn unig

**Goblygiadau cyfreithiol:** Methu cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**Goblygiadau staffio:** Amh

**Goblygiadau eiddo / asedau:** Amh

**Risg(iau):** Amh

**Pwerau Statudol:**
Canllawiau Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru,
Deddf Llywodraeth Leol 2000;
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;
Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**Papurau Cefndir:**
Papur Trafodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 9 Mehefin 2023

**Atodiadau**: Amh

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd

**Swyddog Adrodd:**
Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd

**Dyddiad:**
01/10/2023